NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Futibatinib ar gyfer trin colangiocarsinoma datblygedig gydag ymasiad neu ad-drefniant FGFR2

11 Medi 2024

Mae futibatinib (Lytgobi) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser dwythell y bustl (colangiocarsinoma) mewn oedolion sydd wedi:

- lledaenu gerllaw dwythell y bustl (datblygedig yn lleol neu i rannau eraill o'r corff (metastatig)
- mwtadiad genynnau (ymasiad neu ad-drefniant) derbynnydd ffactor twf ffibroblast 2 (FGFR2)
- gwaethygu (datblygu) ar ôl 1 llinell o driniaeth systemig o leiaf.

Triniaethau systemig yw meddyginiaethau sy'n gweithio drwy'r corff cyfan. Gallant gynnwys pigiadau, trwythiadau neu feddyginiaethau a gymerir drwy'r geg.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall tudalen we y GIG ar ganser dwythell y bustl fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall AMMF – Yr Elusen Colangiocarsinoma, 01279 661479, roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9471-7